

<b>Cyfarfod</b>	<b>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>11 Gorffennaf, 2017</b>
<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddi a Datblygu Aelodau</b>
<b>Pwrpas</b>	<b>Diweddaru'r pwyllgor ar y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn sydd ar y gweill a cheisio arweiniad a sylwadau ar ddatblygiadau pellach</b>
<b>Awdur</b>	<b>Carey Cartwright Rheolwr Dysgu a Datblygu</b>

1. Un rhan allweddol o rôl y pwyllgor hwn, o sicrhau cefnogaeth briodol i aelodau'r Cyngor yn eu gwaith, yw cadw llygad ar a chynnig gwelliannau i'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi a datblygu aelodau.

2. Bu'r pwyllgor yn gwneud hyn cyn yr etholiad a bu cryn drafod gydag aelodau am gynnwys y rhaglen hyfforddi a datblygu, yn arbennig felly ar gyfer flwyddyn gyntaf y Cyngor newydd. Arweiniodd hynny at drefniadau y dyddiau anwytho cychwynol newydd a weithredwyd yn fuan ar ôl yr etholiad (a fydd yndestun trafodaeth arall yng nghyfarfod y pwyllgor) a hefyd y rhaglen o sesiynau hyfforddi a datblygu aelodau ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

3. Mae copi o'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn hynny ynghlwm i'r adroddiad hwn fel Atodiad 1. Medrwn adrodd ar lafar yn y pwyllgor ar yr ymateb i'r ddarpariaeth hyd yma ond, wrth gwrs, mae'n ddyddiau cynnar gyda llawer o sesiynau ar faterion allweddol iawn eto i'w cynnal. Fodd bynnag, hyd yn oed ar yr adeg hon, byddai'n ddefnyddiol derbyn argraffiadau aelodau'r pwyllgor am yr hyn sydd wedi ei gynnig ac unrhyw anghenion na wnaed darpariaeth ar eu cyfer eto.

4. Un peth a oedd yn glir iawn o farn aelodau yn flaenorol oedd mai nid mewn hyfforddiant ffurfiol yn unig (cysiau ac ati) oedd y ddiddordeb mwyaf a gwnaed amryw o sylwadau am yr angen i sicrhau cefnogaeth llai ffurfiol ond fwy cyson i aelodau.

5. Mae hyn wedi ein harwain i geisio sefydlu darpariaeth ar gyfer mentora a chymell. Mae Atodiad 2 yn adrodd ar y ddau ddarpariaeth hynny, yr hyn y maent yn ei olygu a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

6. Soniwyd am y ddarpariaeth bosib hynny yn y Stodin Dysgu a Datblygu yn y Dyddiau Anwytho ac, yn fuan, byddwn yn cylchredeg trwch yr aelodau i weld faint o ddiddordeb sydd mewn derbyn cefnogaeth o'r fath. Mae rhai aelodau eisoes wedi mynegi diddordeb a rydym wrthi yn trefnu darpariaeth briodol. Yn eu mysg mae aelodau newydd sydd wedi cael cynnig cyfweiliad 1:1 cychwynol gydag uwch swyddog er mwyn adnabod anghenion datblygu.

7. Fel sydd yn amlwg o Atodiad 2, mae rôl mentor a rôl cymhellydd yn wahanol a bydd yn bwysig sicrhau mai cyd-gynghorwyr mwy profiadol fyddai'n gweithredu fel mentoriaid. O ran hynny, mae dau beth ar y gweill. Yn gyntaf, rydym wedi cysylltu â phob grwp gwleidyddol i geisio enwau cynghorwyr mwy profiadol sydd yn barod i weithredu fel mentoriaid i aelodau llai profiadol. Yn ail, rydym yn trefnu hyfforddiant ar gyfer y rhai sydd yn awyddus i weithredu fel mentoriaid er mwyn eu cynorthwyo i fod yn effeithiol yn y rôl.

8. Gwahoddior sylwadau ac arweiniad gan y pwyllgor ar y rhaglen hyfforddi ac ar ddatblygiad y trefniadau mentora a chymell ar gyfer aelodau.